Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | PrifArolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 20 Medi 2019 |
| **Pwnc / Subject:** | Ymchwiliad 'Speak for Change' y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Lafaredd |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn yr alwad am dystiolaeth i Ymchwiliad 'Speak for Change' y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Lafaredd. Mae'n cefnogi'r ffocws ar lafaredd disgyblion fel llinyn pwysig mewn llythrennedd.

Er 2009, mae Estyn wedi cynhyrchu nifer o adroddiadau thematig, sy'n cynnwys cyfeiriadau at y ddarpariaeth ar gyfer llafaredd[1] (gweler atodiad 2 am restr o adroddiadau thematig perthnasol) a safonau medrau dysgwyr yn ysgolion Cymru. Mae'r adroddiadau hyn yn ystyried effaith datblygiadau polisi cenedlaethol ar safonau disgyblion ac ansawdd darpariaeth ysgolion ar gyfer addysg llafaredd, er enghraifft:

- cyflwyno'r cyfnod sylfaen[2] i ddisgyblion tair i saith oed (Llywodraeth Cymru, 2008)
- y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol[3] (Llywodraeth Cymru, 2013)
- cyllid i ysgolion trwy'r grant datblygu disgyblion[4] i wella cyrhaeddiad a lles disgyblion difreintiedig
- cymwysterau newydd, er enghraifft Bagloriaeth Cymru[5], a
- strategaethau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg[6].

Mae rhestr o'r adroddiadau (2009-2019) a chyfuniad o'r argymhellion allweddol i leoliadau, ysgolion a cholegau yng Nghymru sy'n berthnasol i'r Ymchwiliad hwn, wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

## Crynodeb

- Mae tystiolaeth o arolygu ac adolygiadau thematig yn dangos y bu gwelliannau yn y ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn Gymraeg a Saesneg yng Nghymru mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd yn y deng mlynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, yn enwedig mewn llafaredd a darllen[7].
- Yn gyffredinol, mae gan ysgolion ledled Cymru ffocws cryfach erbyn hyn ar leihau effaith tlodi nag oedd ar ddechrau cylch arolygu blaenorol Estyn (2010-2017).
- Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cydbwysedd gwell o brofiadau dysgu i ddisgyblion ym meysydd siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu.
- Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau siarad Cymraeg yn dda yn y cyfnod cynradd ac mae hyn yn arbennig o gryf mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Er bod y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn mewn llafaredd yn ystod eu haddysg gynradd, mae datblygiad iaith rhwng disgyblion

[1] Mae Estyn yn defnyddio geirfa sy'n cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm a safonau adeg adrodd. Mae diffiniad Llywodraeth Cymru o lythrennedd yn cynnwys llafaredd (gweler atodiad 1). Mae Estyn yn cyfeirio at 'lafaredd', 'cyfathrebu' a 'siarad a gwrando' yn ei gyhoeddiadau.
[2] Mae ymchwil yn awgrymu nad yw plant yn elwa o addysgu ffurfiol helaeth hyd nes cyrraedd chwe neu saith oed a nod fframwaith y cyfnod sylfaen yw cynnig dull dysgu gweithredol, trwy brofiad. Mae dull y cyfnod sylfaen yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi bod y plentyn yn ganolog i'r holl ddysgu ac mae'n pwysleisio arwyddocâd lles plant. Mae'n argymell cydbwysedd o weithgareddau wedi'u hysgogi gan blant a gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolion, y dylid eu cynnal mewn amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored. Rhoddir blaenoriaeth uchel i lafaredd yn y cyfnod sylfaen.
[3] Llywodraeth Cymru (2013). Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[4] Fe'i gelwid gynt yn 'Grant Difreintedd Disgyblion' ac fe'i hailenwyd ym Mawrth 2017.
[5] Estyn (2018). Cymwysterau newydd. Caerdydd: Estyn.
[6] Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010); Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 (2012); Iaith Fyw: Iaith Byw – Bwrw mlaen (2014); Symud Cymru Ymlaen 2016–2021 (2016); Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (2017).
[7] Estyn (2018). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2016-2017*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

breintiedig a difreintiedig yn economaidd gymdeithasol yn tueddu i ehangu yn hytrach na lleihau wrth iddynt symud ymlaen yn yr ysgol.
- Yn y sector uwchradd, nid yw lleiafrif o ysgolion yn datblygu llafaredd disgyblion yn ddigon da. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys addysgu gwan a mwy o ffocws ar wybodaeth am bynciau yn hytrach na medrau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.
- Ar lefel ysgol, mae rhwystrau fel caniatáu digon o amser a rhoi blaenoriaeth i dasgau eraill, fel ysgrifennu a pharatoi ar gyfer arholiadau, yn gallu llesteirio'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau llafaredd disgyblion.
- Bu diffyg cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon ddatblygu'u dulliau o gefnogi datblygiad medrau llafaredd disgyblion yn y sector uwchradd.
- Mae amrywiaeth o faterion cyd-destunol, fel absenoldeb, anghenion addysgol arbennig a thlodi, yn cyfrannu at anghydraddoldeb wrth fanteisio ar addysg llafaredd.

## Cwestiynau ymgynghoriad Ymchwiliad 'Speak for Change'

**i) Gwerth ac effaith:** Beth yw effaith addysg llafaredd yn ystod camau bywyd gwahanol, o'r blynyddoedd cynnar i gyflogaeth, a sut gall cyflwyno addysg llafaredd effeithiol gyfrannu at ddeilliannau unigol a chymdeithasol?

1 Mae geiriau'n rhan o brofiadau gwneud ystyr o gyfnod cynnar iawn yn natblygiad plentyn. Mae geirfa yn datblygu'n gyflym iawn yn ystod plentyndod cynnar, gyda geiriau newydd yn cael eu dysgu'n chwim yn ddwy oed, pan fydd plant yn caffael tua deg gair newydd y dydd (Goswami, 2015, t.12)[8]. Mae datblygiad iaith yn amrywio'n sylweddol yn ystod plentyndod cynnar, lle y bydd ansawdd y siarad a lefel y siarad â phlant ifanc yn bwysig yn ddatblygiadol. Nododd astudiaeth bwysig Hart and Risley (1995)[9] 'wahaniaethau rhyfeddol' ym mhrofiadau cynnar plant ifanc o ran geirfa. Erbyn 3 oed, roedd plant o deuluoedd â statws economaidd gymdeithasol uchel yn gwybod 600 yn fwy o eiriau, ar gyfartaledd, na phlant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd gymdeithasol. Yn ogystal, gwyddent lai o ystyron geiriau a llai am ystyr pob gair. Erbyn 10 neu 11 oed, roedd y bwlch hwn wedi ehangu i ryw 4,000 o eiriau, ar gyfartaledd (Biemiller and Slonim, 2001[10]; Hart and Risley, 2005).

2 Mae datblygiad iaith yn hollbwysig i ddatblygiad gwybyddol (Goswami, 2015)[11]. Mae ymchwil yn pwysleisio pwysigrwydd siarad i ysgogi datblygiad gwybyddol plant (Mercer et al, 2017)[12], gan helpu dysgwyr i ddatblygu eu syniadau ac ennill dealltwriaeth, ac archwilio'r byd a gwneud synnwyr ohono (Estyn, 2009)[13], ac i gymryd rhan mewn cymdeithas.

[8] Goswami, U. (2015) *Children's Cognitive Development and Learning*. York: Cambridge Primary Review Trust.
[9] Hart, B. and Risley, T. R. (1995). *Meaningful differences in the everyday experience of young American children*. Baltimore: Brooks.
[10] Biemiller, A. and Slonim, N. (2001). 'Estimating Root Word Vocabulary Growth in Normative and Advantaged Populations: Evidence for a Common Sequence of Vocabulary Acquisition'. *Journal of Educational Psychology* 93 (3), 498 – 520.
[11] *Op.cit.*
[12] Mercer, N., Warwick, P. and Ahmed, A. (2017). *An Oracy Assessment Toolkit: linking research and development in the assessment of students' spoken language skills at age 11-12*. Cambridge: The University of Cambridge.
[13] Estyn (2009). *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed*. Caerdydd: Estyn.

3 Siarad a meithrin geirfa (ynghyd â gwrando a deall geiriau) yw'r seiliau hanfodol sy'n galluogi plant i ddysgu darllen (Save the children, 2015)[14]. Mae astudiaethau ymchwil yn dangos bod datblygiad geirfa a gwybodaeth am eirfa yn hanfodol i gefnogi llwyddiant academaidd gan eu bod yn arwydd clir o allu yn y dyfodol i ddarllen a deall (Christ and Wang, 2011)[15]. Mae llai o wybodaeth am eirfa yn golygu bod disgyblion yn fwy tebygol o gael anhawster wrth ddarllen a deall, ac yn eu dysgu ym mhynciau eraill y cwricwlwm (Hart and Risley, 1995[16]; Chall, Jacobs and Baldwin, 1990[17]; Biemiller, 2001[18]). Mae tystiolaeth yn dangos mai geirfa, ochr yn ochr â statws economaidd gymdeithasol, yw un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol i ddisgyblion gyflawni graddau A*- C mewn TGAU mathemateg, Iaith Saesneg Llenyddiaeth Saesneg (Spencer et al, 2017)[19]. Mae gwella llafaredd disgyblion yn gwella cyrhaeddiad mewn llythrennedd a pherfformiad ar draws feysydd pwnc. Hefyd, mae hyn yn dylanwadu ar ddewis pynciau disgyblion ar lefelau astudio uwch, eu rhagolygon gyrfaol yn y dyfodol a'u gobeithion mewn bywyd.

4 Ni ellir gorbwysleisio addysgu medrau siarad yn bwrpasol trwy gydol addysg blynyddoedd cynnar, cynradd ac uwchradd plant. Mae ar blant angen dysgu *i* siarad ac mae angen iddynt ddysgu *trwy* siarad, er mwyn iddynt dyfu'n ddysgwyr hyderus a llywddiannus, yn feddylwyr beirniadol, yn gyfathrebwyr effeithiol ac yn ddinaysddion gweithgar. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn defnyddio cyd-destunau cyfoethog ac amrywiol i ddysgu disgyblion 'sut' i siarad. Maent yn cynllunio profiadau dysgu perthnasol sy'n helpu disgyblion i feddwl yn ofalus ac yn fwriadol am y mathau o iaith a ddefnyddiant. Maent yn cynorthwyo disgyblion i fynegi a strwythuro'u meddyliau a'u syniadau yn effeithiol at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol. Pan fydd athrawon yn cynnig cyfleoedd dilys a difyr i ddysgu, mae disgyblion yn dyfnhau eu dealltwriaeth o bynciau a chysyniadau *trwy* siarad. Dysgant drafod syniadau cymhleth, herio'u meddwl ei gilydd ac adeiladu ar hynny, dadansoddi, gwerthuso a myfyrio.

5 Lle y mae ysgolion yn annog ac yn cynorthwyo disgyblion i werthfawrogi pwysigrwydd eu 'llais', yn gyffredinol, mae'r disgyblion hynny'n gwneud hynny yn hyderus, yn briodol ac yn sensitif. Mae gwefan Estyn (https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol) yn cynnwys llawer o astudiaethau achos ar leoliadau ac ysgolion yng Nghymru sydd wedi gwella llafaredd disgyblion yn llwyddiannus.

**ii) Darpariaeth a mynediad:** Beth yw cyflwr y ddarpariaeth addysg llafaredd ar hyn o bryd ar draws y DU, pwy sydd ar eu colled a pha ffactorau sy'n creu myneiad anghyfartal at addysg llafaredd?

6 Roedd gwella llythrennedd disgyblion, gan gynnwys llafaredd, yn flaenoriaeth yng Nghymru trwy gydol cylch arolygu 2010-2017. Ar y cyfan, mae cyflwyno'r cyfnod sylfaen i blant tair i saith oed[20], y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Llywodraeth

---

[14] Save the Children (2015) *Ready to Read: Closing the gap in early language skills so that every child in Wales can read well.* [Ar-lein]. [Defnyddiwyd 8 Gorffennaf 2019]
[15] Tanya, C. and Wang, X.C. (2011). 'Closing the Vocabulary Gap?: A Review of Research on Early Childhood Vocabulary Practices'. *Reading Psychology* 32 (5), 426-458.
[16] *Op.cit.*
[17] Chall, J. S., Jacobs, V. A., and Baldwin, L. E. (1990). *The reading crisis: Why poor children fall behind*. Cambridge, Mass.: Harvard University Press.
[18] *Op.cit.*
[19] Spencer, S., Clegg, J., Stackhouse, J. and Rush, R. (2017). 'Contribution of spoken language and socio-economic background to adolescents' educational achievement at aged 16 years'. *International Journal of Language Disorders* 52,184-196.
[20] Llywodraeth Cymru (2008). *Y Cyfnod Sylfaen i blant tair i saith oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Cymru, 2013)[21] a rhaglenni astudio diwygiedig y cwricwlwm cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2015)[22], wedi cynorthwyo â chynllunio'n well ar gyfer llythrennedd mewn llawer o ysgolion yng Nghymru. Yn 2016-2017, amlygom fod dull mwy systematig wedi bod dros y cyfnod saith mlynedd i gynllunio cyfleoedd i ddsigyblion ddysgu, cymhwyso ac ymarfer eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm (Estyn, 2017, t.6)[23]. Yn gyffredinol, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, yn enwedig mewn llafaredd a darllen (Estyn, 2017, t.19)[24].

7 Yn 2017-2018, pan ddechreuodd ein cylch arolygu newydd, gwnaethom nodi bod y rhan fwyaf o ddisgyblion oed cynradd yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau llafaredd o'u mannau cychwyn cymharol yn iaith y lleoliad neu'r ysgol. Yn nodedig, mewn llawer o'r lleoliadau dpsbarthiadau meithrin ac ysgolion cynradd, mae ymarferwyr yn fodelau iaith da ac yn datblygu geirfa'r disgyblion yn dda. Maent yn cefnogi'r rheiny sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg yn arbennig o effeithiol trwy gyflwyno geirfa newydd yn rheolaidd a modelu patrymau iaith penodol yn ofalus. Mewn llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae disgyblion yn datblygu'u medrau cyfathrebu cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 (Estyn, 2018, t.24).[25]

8 Yn gyffredinol, mae'r cyfnod sylfaen i ddisgyblion tair i saith oed yng Nghymru wedi ategu pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion. Mae'r lleoliadau ac ysgolion mwyaf effeithiol yn rhoi cyfleoedd dyddiol i ddatblygu siarad y disgyblion ar draws pob maes dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd a chydag oedolion, yn ymestyn eu geirfa ac yn siarad yn hyderus am eu profiadau yn yr ysgol a gartref yn iaith y lleoliad neu'r ysgol.

9 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn parhau i ddatblygu'u defnydd o iaith lafar yn dda yn iaith yr ysgol. Mewn ysgolion lle y mae safonau llythrennedd yn dda neu'n well, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio geirfa yn effeithiol i ychwanegu manylion wrth siarad am bynciau penodol. Yn aml, maent yn dewis eu geiriau yn ofalus i gyflwyno dadl neu safbwynt.

10 Mae diffygion pwysig yn y ddarpariaeth ar gyfer addysgu'r Gymraeg wrth i ddisgyblion symud drwy gyfnod allweddol 2 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. O ganlyniad, mae gormod o ddisgyblion yn dechrau colli hyder yn eu gallu i siarad yr iaith. Wrth i ddsigyblion bontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg, mae hyn yn arwain at ddirywiad pellach yn eu cynnydd o ran siarad. Mewn tri chwarter o ysgolion uwchradd, nid yw disgyblion yn datblygu'u medrau siarad Cymraeg yn ddigon da mewn gwersi Cymraeg neu mewn cyd-destunau eraill (Estyn, 2018, t.39)[26].

11 Mae llawer o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn siarad yn dda yn Gymraeg ac mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau iaith yn hyderus mewn cyd-destunau anffurfiol a ffurfiol gwahanol ar draws y cwricwlwm (Estyn, 2018)[27], er nad yw

[21] Llywodraeth Cymru (2013). *Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[22] Llywodraeth Cymru (2015). *Saesneg: Rhaglen Astudio Cyfnodau Allweddol 2 a 3*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
Llywodraeth Cymru (2015). *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Diwygiedig 2015).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[23] Estyn (2018). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2016-2017*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[24] *Ibid*
[25] Estyn (2018). *Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog*. Caerdydd: Estyn.
[26] *Ibid*
[27] *Ibid*

ychydig ohonynt yn datblygu'u llafaredd hyd eithaf eu gallu. Nid yw ychydig ysgolion dwyieithog yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4[28].

12 Mewn colegau addysg bellach (Estyn, 2017)[29], mae gan lawer o ddysgwyr sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog fedrau Cymraeg neu ddwyieithog llafar da. Siaradant yn hyderus ac yn gywir, a dangosant amgyffrediad da o eirfa a therminoleg pwnc. Fodd bynnag, tua thraean yn unig o ddysgwyr sy'n dweud eu bod yn weddol hyderus ar lafar ar y gorau, er eu bod yn dilyn cyrsiau Cymraeg neu wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn yr enghreifftiau gwell, mae dysgwyr a'u athrawon yn sgwrsio'n anffurfiol yn y Gymraeg yn ystod dosbarthiadau ac o gwmpas y coleg. Mewn ychydig achosion mewn darparwyr hyfforddiant dysgu yn y gwaith, cynhelir adolygiadau ac asesiadau yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae hyn yn aml yn dibynnu ar y lleoliad daearyddol a gallu'r darparwr i gael staff Cymraeg eu hiaith.

13 Mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, dim ond mwyafrif o ddisgyblion sy'n datblygu medrau llafaredd da. Mae'r disgyblion hyn yn gwrando ac yn ymateb yn ofalus i eraill. Defnyddiant eirfa pwnc-penodol a chyffredinol eang ac maent yn cyfleu eu syniadau'n glir. Ymatebant yn dda i gwestiynau eu hathrawon neu eu cymheiriaid a chynigiant ymatebion rhesymegol. Yn yr ychydig achosion gorau, mae disgyblion yn ymwneud â'i gilydd yn dda mewn trafodaethau bywiog a hwyliog. Dangosant chwilfrydedd ac maent yn gofyn yn ogystal ag yn ateb cwestiynau i ddatblygu'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u meddwl beirniadol.

14 Mewn Safon Uwch (Estyn, 2018)[30], mewn dosbarthiadau chweched a cholegau yng Nghymru, mae llawer o ddysgwyr yn siarad yn hyderus ac yn gwneud pwyntiau craff, tra ystyriol, yn nhrafodaethau'r dosbarth. Maent yn ymgysylltu'n aeddfed â therafodaethau ac yn dod i gasgliadau rhesymegol. Mae lleiafrif ohonynt yn arbennig o rhugl a mynegant safbwyntiau soffistigedig ar sail ystyired tystiolaeth yn gytbwys. Mae'r dysgwyr hyn yn datblygu medrau trafod gwerthfawr a fydd o fudd iddynt yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a'u cymheiriaid, ac mae llawer ohonynt yn feddylgar yn eu hymatebion i safbwyntiau dysgwyr eraill. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn gofyn cwestiynau deallus sy'n adlewyrchu eu chwilfrydedd a'u diddordeb yn y pynciau a astudiant. Mae'r dysgwyr hyn yn herio'r wybodaeth a gânt yn hyderus ac yn cynnig dehongliadau amgen sy'n dangos eu gallu i droi at eu dysgu o onglau gwahanol. Mae ychydig ddysgwyr yn rhy oddefol ac yn tueddu i dderbyn gwybodaeth heb ei hystyried yn briodol neu maent yn dibynnu'n ormodol ar ddehongliadau pobl eraill.

15 Mewn darparwyr hyfforddiant dysgu yn y gwaith, mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu medrau siarad a gwrando cryf. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn defnyddio'r medrau hyn yn rheolaidd yn eu gweithle wrth sgwrsio â chydweithwyr, rheolwyr a chwsmeriaid. Mewn rhaglenni eraill colegau addysg bellach, mae llawer o ddysgwyr yn siarad yn glir ac yn hyderus. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw dysgywr yn ymarfer ac yn datblygu'r medrau llythrennedd hyn yn ddigon da drwy eu rhaglenni galwedigaethol ac academaidd. Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon bob amser yn gwneud digon i ennyn diddordeb y dysgwyr hyn i ddatblygu'u medrau cyfathrebu llafar. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn datblygu'r medrau cyfathrebu y mae ar gyflogwyr eu hangen.

---

[28] *Ibid*

[29] Estyn (2017) *Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach*. Caerdydd. Estyn.

[30] Estyn (2018) *Cyrsiau safon uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach*. Caerdydd. Estyn.

16 Mae nifer o ffactorau cyffredin i'w gweld yn yr ysgolion hynny lle y mae tystiolaeth na ellir cael at ddarpariaeth effeithiol i ddatblygu llafaredd yn gyfartal. Y mwyaf dylanwadol o'r rhain yw addysgu gwan ac, yn benodol, ddiffygion ym medrau holi'r athrawon. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn gofyn cwestiynau treiddgar, sy'n profio dealltwriaeth disgyblion o'r pwnc ond sydd hefyd yn eu herio nhw i ddatblygu'u hymatebion llafar. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, mae athrawon yn dibynnu'n ormodol ar gwestiynau caeëdig, sy'n ddefnyddiol i sefydlu medrau adalw a gwybodaeth disgyblion, ond nad ydynt yn rhoi digon o gyfleoedd iddynt ddatblygu'u medrau llafaredd.

17 Dyma'r sefyllfa hefyd mewn lleoliadau ôl-16, fel yn achos dysgwyr Safon Uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau (Estyn, 2018)[31]. Mae llawer o athrawon yn gofyn cwestiynau craff i'r dsobarth cyfan ac yn dilyn hynny i fyny trwy ofyn cwestiynau treiddgar sydd wedi'u hanelu at unigolion. Cynigiant adborth llafar o ansawdd uchel yn ystod sesiynau holi ac wrth grwydro'r dosbarth. Mewn ychydig achosion, nid yw holi'r athrawon yn herio dysgwyr yn ddigonol nac yn eu hannog i ymhelaethu ar eu hatebion. Yn ogystal, mae'r athrawon hyn yn tueddu i ateb eu cwestiynau eu hunain neu esbonio atebion, yn hytrach nag arwain dysgwyr drwy'r broses o ddod i gasgliad. O ganlyniad, mae ychydig ddysgwyr yn mynd yn rhy oddefol ac nid ydynt yn datblygu'u medrau meddwl yn ddigon da. Yn gyffredinol, ar draws sectorau ôl-16, mae athrawon yn defnyddio technegau holi yn dda i brofi dealtlwriaeth a gwybodaeth dysgwyr, er eu bod yn aml yn colli cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth, hyder a chynnydd dysgwyr ymhellach.

18 Mae hwyluso dysgu annibynnol yn llwyddiannus yn gryfder arbennig gan lawer o athrawon Safon Uwch. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n gofyn i ddysgwyr lunio cysylltiadau a throsglwyddo'u medrau rhwng agweddau gwahanol ar eu cwrs yn annibynnol. Mewn enghreifftiau eraill, mae athrawon yn rhoi cyfrifoldeb i ddysgwyr 'addysgu' rhannau penodol o wers i'w cymheiriaid neu maent yn rhoi rolau penodol i'r dysgwyr fel eu bod yn cynnal eu trafodaeth eu hunain. Yn y gwersi hyn, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf. Fodd bynnag, mae ychydig athrawon Safon Uwch yn gwneud gormod dros ddysgwyr ac nid ydynt yn eu galluogi i ddysgu drostynt eu hunain. Hefyd, mae'r athrawon hyn yn gadael i ychydig ddisgyblion, sef y rhai mwy abl yn gyffredinol, ddominyddu'r wers o ran ateb cwestiynau ac arwain trafodaethau. Oherwydd bod medrau dysgu annibynnol yn hollbwysig i lwyddiant mewn Safon Uwch, mae hyn yn rhwystro cynnydd dysgwyr.

19 Ar hyn o bryd, mewn ychydig ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd buddiol i gymryd rhan mewn gwersi sy'n canolbwyntio'n benodol ar 'siarad'. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu ac yn gwella medrau, fel holi, herio ac adeiladu ar gyfraniadau pobl eraill, trafod a siarad yn gyhoeddus. Mae gwendidau pellach mewn addysgu yn cynnwys sefyllfaoedd lle y mae athrawon yn osgoi neu, ar y gorau, yn cyfyngu'r defnydd o waith grŵp neu drafodaethau rhag ofn eu bod yn colli rheolaeth ar y dosbarth o ganlyniad.

20 Mae ysgolion llai effeithiol o'r fan bod siarad yn fedr sy'n ategu darllen ac ysgrifennu yn unig, yn hytrach na'i fod yn fedr y mae angen ei ddatblygu yn ei rinwedd ei hun. Yn yr ysgolion hyn yn aml, mae diffyg addysgu geirfa yn benodol. Yn aml, mae ymyriadau athrawon a'u sylwadau yn canolbwyntio ar yr hyn y mae disgyblion yn siarad amdano, yn hytrach na sut maen nhw'n ei ddweud. Mae gormod o athrawon uwchradd o'r farn eu bod o dan bwysau i gynhyrchu rhywbeth pendant o ddysgu'r disgyblion. O ganlyniad, maent yn canolbwyntio ar ysgrifennu ac, yng nghyfnod allweddol 4 yn benodol, ar baratoi ar gyfer arholiadau.

---

[31] *Ibid*

21 Hefyd, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llafaredd yn gyfyngedig hefyd mewn ysgolion lle nad yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd yn cael ei chydlynu'n effeithiol. Mae hyn yn fwyaf cyffredin lle y bu newidiadau ymhlith staff, lle nad yw uwch arweinwyr yn cefnogi'r fenter yn ddigon cadarn neu lle nad amlygwyd diffygion yng ngwybodaeth broffesiynol a sgiliau athrawon na mynd i'r afael â'r rhain yn ddigon da. Mae angen yn parhau am gyfleoedd dysgu proffesiynol penodol mwy effeithiol i bob athro ar lafaredd, yn enwedig yn y sector uwchradd.

22 Mwyfwy, mae ysgolion yng Nghymru'n rhoi llais cryfach a mwy dylanwadol i ddisgyblion yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar faterion ysgol gyfan, ehangach. Mae gan bron pob ysgol yng Ngymru amrywiaeth o grwpiau disgyblion, sy'n cynrychioli disgyblion eraill ac yn dylanwadu ar benderfyniadau mewn ysgolion. Yn yr ysgolion arbennig mwyaf effeithiol, mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau, gan gynnwys llefaredd, arwyddion, technoleg wedi'i chyfeirio gan y llygaid, a system cyfnewid lluniau i gyfleu eu barn a'u syniadau.

23 Mae cymryd rhan yn y grwpiau hyn wedi rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ledled Cymru ddatblygu'u medrau cyfathrebu mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol, fel rhoi cyflwyniadau i gorff llywodraethol yr ysgol neu roi areithiau ffurfiol i rieni, ymwelwyr a phobl mewn swyddi cyhoeddus. Mae'r cyd-destunau amrywiol hyn yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu i chwarae rhan weithgar mewn cymdeithas. Mae'n codi eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach.

24 Mae pedwar diben y cwricwlwm, fel y'u hamlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus* (Donaldson, 2015)[32], wedi llywio dyluniad a datblygiad Cwricwlwm i Gymru 2022. I ymateb i'r cwricwlwm newydd, mae llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio barn a syniadau disgyblion i ddatblygu cwricwlwm ac addysgeg yr ysgol, sy'n golygu bod disgyblion yn chwarae mwy o ran yn yr hyn maent yn ei ddysgu a sut. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn y llais cryf a roddir iddynt. Yn yr enghreifftiau gorau, mae cyfleoedd ystyrlon yn cyfrannu at ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion o ddysgu trwy ddeialog o ansawdd uchel gyda'u hathrawon a'u cymheiriaid (Alexander, 2006)[33]. Maent yn eu helpu i ddatblygu'n siaradwyr hyderus a dod i fynegi'u barn a'u syniadau yn rhugl.

**iii) Rhwystrau rhag gwella addysg llafaredd:** Beth yw'r rhwystrau rhag darparu addysg llafaredd o ansawdd da i bawb, a beth yw rôl y llywodraeth a chyrff eraill wrth gymell y ddarpariaeth?

25 Mae amrywiaeth o faterion cyd-destunol yn cyfrannu at anghydraddoldeb wrth fanteisio ar addysg llafaredd. Yn 2018, roedd un o bob ugain disgybl yn absennol am fwy na phumed o'r flwyddyn ysgol a Chymru oedd â'r gyfradd uchaf o ddisgyblion yn cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol er 2010. Yn ogystal, mae disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim dros deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd na'u cymheiriaid, a'r

---

[32] Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
Dyma bedwar diben y cwricwlwm:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

[33] Alexander, R. (2006). *Towards Dialogic Teaching: Rethinking Classroom Talk* (3rd edition). York: Dialogos.

disgybl ag anghenion addysgol arbennig o leiaf 5 gwaith yn fwy tebygol. Mae ugain y cant o'r boblogaeth mewn llawer o ardaloedd difreintiedig yng Nghymru yn meddu ar fedrau islaw cymhwyster lefel dau[34].

26 Mae tlodi yng Nghymru uwchlaw gweddill y Deyrnas Unedig o hyd. Er bod cyrhaeddiad disgyblion wedi codi, ni wnaed digon o gynnydd o ran lleihau'r bwlch i ddisgyblion difreintiedig. Mae lleiafrif o leoliadau ac ysgolion yn adrodd am gyfran uchel o blant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, y mae eu hiaith lafar yn wan pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Er bod y rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn mewn llafaredd yn ystod eu haddysg gynradd, mae datblygiad iaith rhwng disgyblion breintiedig a difreintiedig yn economaidd gymdeithasol yn tueddu i ehangu yn hytrach na lleihau wrth iddynt symud ymlaen yn yr ysgol.

27 Ers cyflwyno'r manylebau TGAU newydd yn 2016, mae'r bwlch rhwng perfformiad y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cymheiriaid wedi cynyddu yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad. Yn ogystal, rhoddodd newidiadau Llywodraeth Cymru i fesurau perfformiad ysgolion ar gyfer TGAU yn 2017 ffocws llymach ar ddarllen, ysgrifennu a llafaredd mewn Saesneg. Datgelodd hyn fwlch mwy ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â'u cymheiriaid nag mewn blynyddoedd blaenorol.

28 Roedd y cymwysterau TGAU iaith Gymraeg a Saesneg newydd yng Nghymru yn pwysleisio pwysigrwydd asesiadau rheoledig o lafaredd fel rhan o'r cymhwyster. Mae'r cymhwyster yn gosod gofyniad o 20% ar gyfer asesiadau rheoledig o lafaredd yn Saesneg a 30% yn Gymraeg. Mae cyfran fwy o asesu llafar ar gyfer y Gymraeg yn adlewyrchu pwysigrwydd medrau siarad a gwrando wrth hyrwyddo defnyddio/datblygiad y Gymraeg.

29 Strategaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru fu rhoi cyllid i ysgolion trwy'r grant datblygu disgyblion. Er 2014, mae Estyn wedi adrodd ar ba mor dda mae ysgolion yn defnyddio'r grant hwnnw. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran yr ysgolion cynradd sydd wedi defnyddi'r cyllid i gefnogi datblygiad iaith lafar disgyblon agored i niwed wedi cynyddu, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn targedu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion, yn hytrach na'u llafaredd. Yn gyffredinol, mae gormod o ysgolion uwchradd yn defnyddio'r cyllid ar gyfer rhaglenni 'dal i fyny' yng nghyfnod allweddol 4 yn hytrach na datblygu medrau disgyblion ym mhob cyfnod o'u haddysg uwchradd.

30 Mae'r grant datblygu disgyblion wedi helpu ysgolion i wella'r deilliannau i'r disgyblion hyn, a'u lles. Fodd bynnag, mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cymheiriaid yn parhau, gyda'r bwlch yn ehangu yn ystod addysg uwchradd disgyblion. Mae'r diffyg cynnydd cymharol wrth leihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru i ddisgyblion agored i niwed yn rhoi achos cryf dros yr angen am y cyfres o ddiwygiadau i addysg a'r cwricwlwm sy'n mynd rhagddynt yng Nghymru ar hyn o bryd, y mae Estyn yn eu cefnogi. Mae hyn yn cynnwys yr adolygiad cenedlaethol o drefniadau gwerthuso a gwella (atebolrwydd) ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019)[35].

---

[34] Dyma gymwysterau lefel 2: CSE – gradd 1, TGAU – graddau 9, 8, 7, 6, 5, 4 neu raddau A*, A, B, C, prentisiaeth ganolradd, dyfarniad lefel 2, tystysgrif lefel 2, diploma lefel 2, SSIE lefel 2, medrau hanfodol lefel 2, medrau gweithredol lefel 2, tystysgrif cenedlaethol lefel 2, diploma cenedlaethol lefel 2, NVQ lefel 2, graddau cerddoriaeth 4 a 5, Lefel O - gradd A, B neu C.

[35] Llywodraeth Cymru (2019). Trefniadau drafft gwerthuso a gwella (atebolrwydd) ar gyfer Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

31 Yn adroddiadau arolygu Estyn ar ddarparwyr ôl-16 mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith, argymhelliad cyffredin dros y blynyddoedd diwethaf fu gwella'r ffocws ar ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr fel medr cyflogadwyedd. Ar draws y sector ôl-16, nid yw arweinwyr a rheolwyr wedi cysylltu buddion defnyddio'r Gymraeg â chyfleoedd cyflogaeth yn glir. Fodd bynnag, mewn nifer o ranbarthau daearyddol a meysydd dysgu yn benodol, mae galw am y Gymraeg. Dyma'r achos yn benodol yn y sectorau iechyd a gofal, yn enwedig yn y sector gofal cartref. Hefyd, mae'n fedr cyflogaeth dymunol iawn i ddysgwyr ar raglenni galwedigaethol sy'n ymweld â chartrefi cwsmeriaid dwyieithog neu Gymraeg eu hiaith i wneud gwaith.

32 Mae Estyn yn croesawu'r bwriad i integreiddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol yn un maes dysgu a phrofiad, 'Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu' yng Nghwricwlwm drafft Cymru 2022. Rydym yn cydnabod yr uchelgias yn y profiadau, y wybodaeth a'r medrau a amlygwyd ar gyfer disgyblion 3 i 16 oed, sy'n pwysleisio datblygiad medrau siarad disgyblion yn gryf.

33 Rhaid paru dysgu proffesiynol â'r uchelgais hwn. Mae her sylweddol gerbron i ysgolion cynradd ac uwchradd wella gwybodaeth, medrau a hyder ymarferwyr i ddatblygu rhugldder llafar dysgwyr yn y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol, a sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd da wrth symud ymlaen yn yr ysgol. Bydd yn hanfodol i staff yn yr holl leoliadau ysgol deimlo'n hyderus yn eu gwybodaeth am fedrau ieithoedd ac ymagweddau ddysgu ac addysgu, sy'n briodol i oedran, er mwyn i Gymru gyflawni'r disgwyliadau a amlinellir yn nogfen ddrafft y maes dysgu a phrofiad. Mae gwella safonau Cymraeg llafar disgyblion, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4, yn parhau'n faes pwysig i'w ddatblygu i ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru.

34 Rydym yn argymell y dylai dysgu proffesiynol ar gyfer holl staff ysgolion adeiladu ar sylfaen gadarn y gwaith a wnaed gan y Grŵp Llywio ar Ddyfodol Byd-eang a chysylltu â rhwydweithiau rhanbarthol presennol, er enghraifft mentrau presennol consortia rhanbarthol a phrosiectau'r DU y mae prifysgolion blaenllaw yn cynorthwyo â nhw.

**Atodiad 1: Diffiniad o lafaredd**

Mae diffiniad Llywodraeth Cymru o lythrennedd yn cynnwys llafaredd:

> Mae llythrennedd yn disgrifio cyfres o sgiliau, gan gynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas… Mae'n ymwneud â'r sgiliau y mae eu hangen i ddeall iaith ysgrifenedig ac iaith lafar, dehongli'r hyn a gafodd ei ysgrifennu neu ei ddweud, a gwneud casgliadau o'r dystiolaeth sydd o'n cwmpas. Mae hefyd yn ymwneud â'r gallu i gyfathrebu – yn rhugl, yn gywir ac yn ddarbwyllol. Mae llythrennedd yn seiliedig ar ddatblygu darllen, ysgrifennu ac iaith lafar ar draws pob maes pwnc. Bwriedir i'r gydran llythrennedd [o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol] asesu gallu dysgwyr i ddefnyddio'r sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu y maent wedi'u dysgu i gwblhau tasgau a datrys problemau realistig sy'n briodol i'w hoedran (Llywodraeth Cymru, 2013, t.16).

Llywodraeth Cymru (2013). Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: Dogfen wybodaeth rhif: 120/2013. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

**Atodiad 2: Trosolwg o adroddiadau thematig Estyn (2009-2019), sy'n berthnasol i'r Ymchwiliad hwn**

- Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed (2008)
- Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed (2009)
- Chwarae a dysgu gweithredol: Pecyn cymorth ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen (2009)
- Gwella ieithoedd tramor modern yn ysgolion uwchradd Cymru (2009)
- Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen: Arfarniad o roi'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant pump i chwech oed ar waith mewn ysgolion cynradd, gyda chyfeiriad arbennig at lythrennedd (2011)
- Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2 (2011)
- Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3 (2012)
- Effaith rhaglenni dysgu teuluol ar godi lefelau llythrennedd a rhifedd plant ac oedolion (2012)
- Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion (2012)
- Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol (2013)
- Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir (2013)
- Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (2013)
- Difreintedd Disgyblion (2014)
- Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 (2014)
- Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog (November 2014)
- Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3: Adroddiad interim (2015)
- Arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2 (Mai 2015)
- Cymedroli asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3: adolygiad o gywirdeb a chysondeb (2016)
- Arfer orau yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 (2016)
- Ieithoedd Tramor Modern (2016)
- Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach (2017)
- Dysgu gweithredol a thrwy brofiad: Arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen wrth gyflwyno llythrennedd a rhifedd ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 (2017)
- Gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 (2017)
- Gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg yng nghyfnod allweddol 2 (2017)
- Arfer dda yn y dyniaethau (2018)
- Addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (2018)
- Cynnwys rhieni – Cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni plant oedran ysgol (2018)
- Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog (2018)
- Cymwysterau newydd (2018)
- Cyrsiau safon uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach (2018)
- Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr sy'n agored i niwed (2018)
- Cefnogi disgyblion mwy abl a thalentog (2018)

**Crynodeb o'r argymhellion allweddol perthnasol o'r adroddiadau thematig hyn**

Ar gyfer lleoliadau, ysgolion a cholegau (lle y bo'n berthnasol):

- Barhau i godi safonau mewn Cymraeg a Saesneg trwy roi sylw i ddatblygu medrau llafaredd disgyblion i gefnogi eu cynnydd wrth ddysgu i ddarllen ac ysgrifennu (2009)
- Parhau i wella addysgu ac asesu trwy sicrhau bod llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn cydgysylltu â'i gilydd yn effeithiol (2009)
- Cynllunio gweithgareddau mwy heriol i ddatblygu medrau cyfathrebu ar draws y meysydd dysgu (yn y cyfnod sylfaen) (2011)
- Amlinellu cyfleoedd ar gyfer llafaredd, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3, yn enwedig o ran gwella ysgrifennu estynedig disgyblion a chywirdeb eu gwaith ysgrifenedig (2012)
- Sicrhau bod cyfleoedd penodol i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu [yn Gymraeg] ar draws y meysydd dysgu ac yn y gwahanol feysydd gweithgarwch yn y cyfnod sylfaen (2013)
- Mynd i'r afael â thanberfformio gan ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim mewn Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, gan gynnwys ar gyfer disgyblion mwy abl, trwy dargedu a gweddu cymorth i'w hanghenion dysgu unigol (2014)
- Darparu gwaith heriol mewn Saesneg i ymestyn pob disgybl yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, yn enwedig y rhai mwy abl (2014)
- Gwneud mwy o ddefnydd o lafaredd mewn ysgolion uwchradd cyn darllen ac ysgrifennu, er mwyn helpu disgyblion i ddatblygu ac ymestyn eu dealltwriaeth a gwella ansawdd eu gwaith (2014)
- Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o staff y cyfnod sylfaen i wneud yn siŵr bod ganddynt y medrau, y ddealltwriaeth a'r hyder i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion (2017)
- Cynllunio cyfleoedd rheolaidd i'r holl ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn meysydd darpariaeth estynedig a pharhaus, dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd (2017)
- Canolbwyntio ar ddatblygu medrau llafar disgyblion [yn Gymraeg] fel sail i ddatblygu eu medrau eraill, yn enwedig ysgrifennu (2018)
- Darparu hyfforddiant er mwyn gloywi iaith athrawon a chynorthwywyr addysgu [yn Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog] (2018)
- Cael disgwyliadau uchel fod pob dysgwr mewn ysgolion a cholegau sy'n astudio cymwysterau newydd yn cyfrannu'n llafar, yn enwedig yn Gymraeg (2018)

Ar gyfer awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

Yn 2016, yn dilyn archwiliad o effeithiolrwydd gweithdrefnau safoni a chymedroli clwstwr wrth sicrhau asesiadau dibynadwy gan athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3, argymhellodd Estyn fod awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn datblygu cyfleoedd hyfforddi i ysgolion. Diben hyn oedd sicrhau:

- cysondeb yn y barnau ar gyfer llafaredd
- digonoldeb y sail dystiolaeth ar gyfer llafaredd
- cymhwyso dull 'gweddu orau' asesiadau athrawon ar gyfer llafaredd yn well, a
- chymedroli gwaith sydd ar y ffiniau rhwng lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol mewn ysgolion ledled Cymru.